Adran dros Drafnidiaeth

Y Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol (Darparu Gwybodaeth ac ati Sy'n Berthnasol i Anableddau) 2022

Dogfen Esboniadol gan yr Adran dros Drafnidiaeth

OOJ/22/003/1W
5/22

Pennod un: Rhagymadrodd

1.1. Mae'r ddogfen esboniadol hon wedi'i gosod gerbron y Senedd yn unol ag adran 14 o'r Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 ("Deddf 2006") ynghyd â'r drafft o'r Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol (Darparu Gwybodaeth, ac ati Sy'n Berthnasol i Anableddau) 2022 rydym yn cynnig i'w gwneud o dan adran 1 o'r Ddeddf honno. Pwrpas y Gorchymyn drafft yw diwygio'r Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988 i ddileu baich a chaniatáu i weithwyr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig, yn ogystal ag ymarferwyr meddygol, i ddarparu gwybodaeth i'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA) i asesu addasrwydd i yrru.

1.2 Mae'r ddogfen esboniadol hon yn cynnwys gwybodaeth ar gyfer y Pwyllgor Pwerau Dirprwyol a Diwygio Rheoleiddiol a'r Pwyllgor Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol.

Pennod dau: Cefndir

2.1 Mae'r DVLA yn penderfynu ar addasrwydd i yrru i ddeiliaid ac ymgeiswyr am drwyddedau gyrru ym Mhrydain Fawr. Mae'r DVLA yn gweithredu'r swyddogaeth statudol honno ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, sydd yn y pen draw yn gyfrifol am wneud y penderfyniad a yw deiliad neu ymgeisydd am drwydded yrru yn ateb yr isafswm o safonau meddygol ar gyfer gyrru.

2.2 Mae'r system trwyddedu meddygol yn seiliedig ar broses 'hunan hysbysu' ac mae gan bob gyrrwr ac ymgeisydd am drwydded ddyletswydd cyfreithiol i hysbysu'r DVLA am gyflwr meddygol a allai gael effaith ar yrru diogel. Mewn rhai achosion, bydd y DVLA yn gallu gwneud penderfyniad trwyddedu o'r wybodaeth a dderbynnir oddi wrth y gyrrwr neu'r ymgeisydd. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, gallai fod gofyn am ragor o wybodaeth.

2.3 Gall y DVLA gasglu gwybodaeth am gyflyrau iechyd oddi wrth y gyrrwr, ei feddygon, ac mewn rhai amgylchiadau, comisiynu asesiadau gyrru gan arbenigwyr eraill. Mae'r ffynhonnell fwyaf o wybodaeth feddygol arbenigol yn cael ei chasglu, â chydsyniad y gyrrwr, trwy holiaduron wedi'u cynllunio'n arbennig wedi'u cwblhau gan feddygon o wybodaeth a gedwir ar gofnodion meddygol. Mae Adran 94 o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988 yn gofyn i yrrwr ddarparu awdurdodiad i ymarferydd meddygol cofrestredig yn unig (hynny yw meddyg wedi'i gofrestru ac wedi'i drwyddedu i ymarfer gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC)), i ddarparu gwybodaeth i'r DVLA. Mae'r awdurdodiad yn darparu cydsyniad y gyrrwr i'r meddyg ddarparu'r wybodaeth. Mae Adran 94 hefyd yn darparu mai meddygon yn unig sy'n gallu cael eu talu am gwblhau holiaduron. Mewn termau ymarferol mae hyn yn golygu bod y DVLA yn gallu derbyn holiaduron meddygol wedi'u cwblhau gan feddyg yn unig.

2.4 Nid yw'r gyfraith bresennol yn adlewyrchu ymarfer clinigol ar hyn o bryd mewn rhai meysydd, lle gall gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill fod yn bennaf gyfrifol am reoli cyflyrau meddygol penodol. Bydd diwygio geiriad deddfwriaeth i ganiatáu i yrrwr neu ymgeisydd am drwydded awdurdodi "gweithiwr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig" (a allai gynnwys meddyg) i ddarparu gwybodaeth feddygol yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu gan y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol mwyaf priodol. Mae'r ychwanegiad hwn yn golygu bod gyrrwr sy'n gwybod bod ei ofal yn cael ei ddarparu'n bennaf gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall yn gallu rhoi ei gydsyniad i'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol arall hwnnw i ddarparu gwybodaeth sydd ganddo. Bydd DVLA, beth bynnag, yn parhau i ofyn am fanylion meddyg teulu'r gyrrwr.

2.5 Mae diwygio'r ddeddfwriaeth i ddarparu yn achos lle mae awdurdodiad wedi cael ei roi, mae gweithiwr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig arall yn gallu darparu gwybodaeth fydd yn dileu baich sy'n gorwedd ar hyn o bryd â meddygon yn unig a bydd yn cynnig hyblygrwydd helaethach i feddygfeydd teulu a thimau ysbyty unigol. Nid yw'r newid yn gorfodi unrhyw weithiwr gofal iechyd proffesiynol i ddarparu'r wybodaeth lle cafodd y meddyg ei awdurdodi gan y gyrrwr, ond bydd yn ei alluogi i'w darparu ble yr ystyrir y meddyg ei fod yn addas i wneud hynny. Bydd angen i feddygfeydd teulu a thimau ysbyty newid eu hymarferion presennol os y dymunant yn unig, a phan fyddant yn gallu.

2.6 Y pŵer i wneud y gorchymyn hwn yw adran 1 o Ddeddf 2006 – Pŵer i Ddileu neu Leihau Beichiau. Mae'r gorchymyn yn ceisio lleihau'r baich ar feddygon. Ar hyn o bryd mae adran 94 o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988 yn gofyn am ryngweithio â meddyg wrth ystyried cyflwr meddygol y gyrrwr. Ond efallai nad yw meddyg yn bennaf gyfrifol am reoli cyflyrau meddygol penodol. Mewn rhai achosion, mae cyflyrau meddygol yn cael eu rheoli gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill, er enghraifft, nyrsys arbenigol diabetes, na fyddai'n ateb y meini prawf presennol fel yr amlinellir mewn deddfwriaeth.

2.7 Mae dileu'r baich hwn yn gofyn am ddiwygiadau i Adran 94 o'r Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988. Byddai'r ddarpariaeth ganlynol yn gofyn am ddiwygio i ganiatáu i yrwyr ac ymgeiswyr am drwyddedau awdurdodi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill i ddarparu gwybodaeth feddygol i'r DVLA ac i'r DVLA dalu'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol am gwblhau'r holiadur.

2.8 Mae Adran 94(6)(b) ar hyn o bryd yn caniatáu i yrwyr awdurdodi *"unrhyw ymarferydd meddygol cofrestredig a allai ar unrhyw adeg fod wedi rhoi cyngor neu sylw meddygol i'r ymgeisydd neu ddeiliad y drwydded dan sylw i ryddhau i'r Ysgrifennydd Gwladol unrhyw wybodaeth a all fod ganddo, neu a all fod ar gael iddo, ynglŷn â'r cwestiwn a all, ac os felly i ba raddau, mae'r ymgeisydd neu ddeiliad y drwydded yn dioddef, neu ar unrhyw adeg wedi dioddef, o anabledd perthnasol neu bosibl."*

2.9 Bydd y gorchymyn hwn rhoi 'gweithiwr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig' yn lle "ymarferydd meddygol cofrestredig".

2.10 Bydd y Gorchymyn yn diffinio 'gweithiwr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig' i olygu unigolyn a reoleiddir gan, ac ar gofrestr, un o'r cyrff canlynol: Y Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol; Cyngor Meddygol Cyffredinol; Cyngor Optegol Cyffredinol; Cyngor Osteopatheg Cyffredinol; y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, neu'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal.

2.11 Bydd is-adrannau 94(6A) a (6B) newydd yn caniatáu i weithiwr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig sydd wedi'i awdurdodi i roi copi o'r awdurdodiad hwnnw i weithiwr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig arall os ydynt o'r farn bod gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall wybodaeth sy'n berthnasol i'r cwestiwn a nodir yn adran 94(6)(b). Ar ôl cael yr awdurdodiad hwnnw, mae'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol arall wedi'i awdurdodi i ddarparu'r wybodaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol. Bydd hyn yn ysgafnhau'r baich ar weithwyr gofal iechyd proffesiynol drwy ganiatáu iddynt drosglwyddo'r cais am wybodaeth pan fyddant yn penderfynu bod gweithiwr gofal iechyd proffesiynol arall mewn sefyllfa well i ddarparu'r wybodaeth.

2.12 Dim ond mewn perthynas â'r cwestiwn a nodir yn adran 94(6)(b); hynny yw a yw'r gyrrwr yn dioddef, neu a allai fod wedi dioddef, o anabledd perthnasol neu ddarpar anabledd. Bydd y ffaith bod y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig ar gofrestr eu rheoleiddiwr, ynghyd â'r ffaith bod ganddynt wybodaeth sy'n berthnasol i'r cwestiwn hwnnw, yn rhoi sicrwydd digonol bod gan y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol y wybodaeth a'r profiad i ddarparu'r wybodaeth y mae'r DVLA yn gofyn amdani. Ar gyfer cyflyrau cymhleth, lle rhoddir triniaeth gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol nad yw'n feddyg, gall lefel eu gwybodaeth a'u profiad eu rhoi mewn gwell lle na meddyg teulu i ddarparu gwybodaeth fanwl i DVLA yn seiliedig ar eu gwybodaeth uniongyrchol am y gyrrwr.

2.13 Yr amcan yw darparu effeithlonrwydd helaethach mewn perthynas â chwblhau'r holiaduron meddygol sydd eu hangen ar y DVLA i benderfynu a yw unigolyn â chyflwr/chyflyrau meddygol yn bodloni'r safonau iechyd priodol ar gyfer gyrru. Nid y bwriad yw disodli rôl meddygon yn y broses trwyddedu meddygol ond sicrhau bod y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol mwyaf priodol yn darparu'r wybodaeth ac i alluogi'r wybodaeth honno i gael ei darparu'n fwy effeithlon. Lle mae awdurdodiad wedi cael ei ddarparu sy'n enwi meddyg, mater i feddygfeydd teulu a thimau ysbyty unigol fydd penderfynu pa weithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n ymarfer sy'n cwblhau holiadur yn gofyn am wybodaeth a anfonir atynt gan y DVLA.

2.14 Mae'r cynnig hefyd yn hepgor y gofyniad bod y person a awdurdodwyd ei hun wedi rhoi cyngor meddygol neu sylw i'r gyrrwr. Mae'r ddarpariaeth bresennol yn ei gwneud yn ofynnol i yrwyr awdurdodi unrhyw ymarferwyr meddygol cofrestredig a allai fod wedi rhoi cyngor neu sylw meddygol ar unrhyw adeg. Gellid dadlau bod hyn yn golygu y dylai gyrrwr awdurdodi pob meddyg sydd wedi rhoi cyngor neu sylw meddygol iddynt, gan ymestyn yn ôl o bosibl dros nifer o flynyddoedd. Mae angen gyrrwr sydd â chyflwr hirdymor sydd wedi mynd yn fwy difrifol i hysbysu'r DVLA yn unol ag adran 94(1)(b). Mae'r cynnig yn ceisio targedu'r person priodol i ateb y cwestiwn a nodir yn adran 94(6)(b), a dileu'r baich ar y gyrrwr a'r meddyg awdurdodedig nad yw efallai'n gallu ateb y cwestiwn hwnnw, oherwydd bod y cyngor a'r cymorth a roddwyd ganddynt yn hanesyddol, ac efallai na fydd ganddynt unrhyw gofnodion meddygol ar gyfer y gyrrwr bellach. Fodd bynnag, bydd meddyg teulu presennol y gyrrwr, neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall, yn dal i allu darparu gwybodaeth berthnasol oherwydd bydd y wybodaeth ar gael iddynt ar sail cofnodion meddygol cyfredol y claf. Mae'n debygol y bydd y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a awdurdodwyd wedi darparu cyngor neu sylw meddygol diweddar (ac felly'n gallu darparu gwybodaeth am y cwestiwn a nodir yn adran 94(6)(b)), ac mae hyn yn cyd-fynd â'r arfer presennol.

2.15 Bydd y cynnig yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu gan y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol mwyaf priodol. Y nod yw lleihau'r baich gweinyddol ar feddygon a chynyddu hyblygrwydd gweithredol i feddygfeydd teulu unigol, sy'n gyson â nod yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) i 'Leihau Biwrocratiaeth Meddygon Teulu' ac i wella amserau ateb hefyd ar gyfer ceisiadau am drwyddedau gyrru. Bydd y mesur hwn o fudd i yrwyr proffesiynol sy'n hunangyflogedig a'r rheini sy'n cael eu cyflogi gan y diwydiant cludo nwyddau ar y ffyrdd. Gall busnesau hefyd elwa o amser ateb cyflymach gan ddarparu mwy o sicrwydd a chaniatáu cynllunio mwy effeithiol.

2.16 Ar hyn o bryd, mae adran 94(9) yn darparu y gall DVLA *"dalu unrhyw ffioedd neu dreuliau rhesymol eraill ymarferydd meddygol cofrestredig mewn cysylltiad â..."*. Bydd y gorchymyn hwn yn amnewid "gweithiwr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig" yn lle "ymarferydd meddygol cofrestredig" yn is-adran 9.

2.17 Ni fydd y gorchymyn hwn yn gosod unrhyw feichiau newydd.

Pennod tri: Crynodeb o'r Ymgynghoriad

3.1 Cwblhaodd yr Adran dros Drafnidiaeth ymgynghoriad ar y cynnig rhwng 8 Tachwedd 2021 a 6 Rhagfyr 2021 yn unol ag adran 13 o'r Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006. Mae manylion am yr ymgynghoriad a'r ymatebion a dderbyniwyd i'w cael isod.

3.2 Darparodd yr ymgynghoriad esboniad o'r mesur arfaethedig i newid y Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988, fel y'i diwygiwyd, i alluogi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol heblaw am ymarferwyr meddygol cofrestredig i gwblhau holiaduron meddygol DVLA a'r broses Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol. Gwahoddodd yr ymgynghoriad ymatebion ysgrifenedig oddi wrth y rheini sy'n gweithio o fewn y proffesiynau gofal iechyd a'u cynrychiolwyr, yn ogystal â phartïon eraill â diddordeb.

3.3 Cafodd y ddogfen ymgynghori ei chyhoeddi ar GOV.UK ac mae hi i'w gweld yn:

https://www.gov.uk/government/consultations/amending-the-road-traffic-act-1988-to-allow-registered-healthcare-professionals-to-complete-dvla-medical-questionnaires

3.4 Mae rhestr lawn o'r holl sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad i'w gweld yn Atodiad 1.

3.5 Mae rhestr lawn o holl gwestiynau'r ymgynghoriad i'w gweld yn Atodiad 2.

3.6 Mae crynodeb llawn o ymatebion yr ymgynghoriad i'w gweld yn Atodiad B.

3.7 Cafodd cyfanswm o 411 o ymatebion eu derbyn. Ni wnaeth pob ymatebydd sylw ar yr holl gwestiynau yn yr ymgynghoriad, yn hytrach cynnig sylw ar y rheini lle roedd ganddynt ddiddordeb neilltuol. Er nad oedd rhai ymatebion yn gwbl gyflawn neu roeddent ar faterion oedd ddim yn berthnasol i'r cynnig, craffwyd ar bob ymateb a chafodd unrhyw wybodaeth neu farn berthnasol eu tynnu allan a'u cynnwys o fewn y dadansoddiad. Roedd bron 82% o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cynnig.

3.8 Roedd 229 o ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd gan y cyhoedd ac 182 o ymatebion oddi wrth gyrff cynrychioliadol o fewn y sector iechyd, gweithwyr gofal iechyd a meddygol proffesiynol a grwpiau diogelwch ffyrdd.

3.9 Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr o blaid y cynnig yn cytuno y byddai'n darparu hyblygrwydd helaethach a byddai'n caniatáu i'r feddygfa deulu neu dîm ysbyty benderfynu pwy fyddai'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol mwyaf priodol i ddarparu'r wybodaeth feddygol i'r DVLA. Credai llawer o ymatebwyr y byddai'r cynnig yn lleihau biwrocratiaeth ac yn gwella effeithlonrwydd, gan arwain at benderfyniadau trwyddedu cyflymach gan y DVLA i rai gyrwyr.

3.10 Dywedodd sawl un o'r ymatebwyr eu bod yn anghytuno â'r cynnig, gan gyfleu eu pryderon na fyddai gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill y sgiliau na'r wybodaeth i gwblhau holiaduron meddygol y DVLA ac y byddai angen arolygu gan feddygon o hyd. Codwyd mater yswiriant indemniad proffesiynol hefyd gan nad yw hyn yn dod o dan drefniadau'r GIG, teimlwyd y byddai angen i unrhyw ffi a gynigir i weithiwr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig i gwblhau holiaduron meddygol DVLA dalu am gost indemniad.

Ymateb y llywodraeth:

3.11 Mae'r cynnig hwn yn ychwanegu hyblygrwydd i'r system bresennol o gasglu gwybodaeth ar gyflyrau meddygol at ddibenion trwyddedu gyrwyr ac yn gwella effeithlonrwydd. Nid yw'n gorfodi unrhyw feddygfa deulu neu dîm ysbyty i weithredu'r caniatadau arfaethedig. Mae'r cynnig yn anelu at sicrhau bod yr unigolyn cywir â'r lefel briodol o wybodaeth am y gyrrwr neu'r ymgeisydd yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen i'r DVLA i asesu addasrwydd i yrru. Mewn rhai achosion bydd hyn yn feddyg ac mewn eraill bydd yn weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall sydd wedi darparu cyngor neu sylw meddygol i'r gyrrwr neu ymgeisydd.

3.12 Mae'r system newydd arfaethedig wedi'i chynllunio i ganiatáu i feddygfeydd teulu a thimau ysbyty, lle mae meddyg wedi'i awdurdodi, yr hyblygrwydd i benderfynu i ble dylai'r ceisiadau hyn am wybodaeth gael eu cyfeirio. Mewn rhai achosion, mae'r llywodraeth yn derbyn y gallai fod angen am arolygu ar lefel meddyg, ond dylai hyn gael ei benderfynu gan feddygon a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eu hunain, yn hytrach na chael eu gorfodi trwy ddeddfwriaeth. Bydd y system hefyd yn caniatáu i weithwyr gofal iechyd proffesiynol sydd ddim yn feddygon benderfynu bod y cais yn cael ateb gwell gan feddyg.

3.13. Nid yw'r llywodraeth yn bwriadu gwneud unrhyw newid i'r system newydd mewn perthynas ag yswiriant indemniad proffesiynol. Nodir yr egwyddor y caiff ffioedd eu had-dalu yn adran 94(9) o RTA 1988, ac nid oes dim yn y cynnig hwn yn newid sail y ffi honno; mae'r darpariaethau ffioedd yn cael eu hymestyn i weithwyr gofal iechyd proffesiynol.

3.14 Cyhoeddodd y llywodraeth ei hymateb ar 12 Mai 2022 ac mae ar gael yn:

Diwygio Deddf Traffig Ffyrdd 1988 i ganiatáu i weithwyr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig gwblhau holiaduron meddygol DVLA – GOV.UK (www.gov.uk)

3.15 Ar ôl ystyried yr ymatebion, mae'r llywodraeth wedi penderfynu symud ymlaen â'r LRO i newid y geiriad yn y ddeddfwriaeth i ganiatáu i weithwyr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig eraill yn ogystal a meddygon allu darparu gwybodaeth i'r DVLA.

Pennod pedwar: Y Gorchymyn

4.1 Mae'r Gorchymyn yn cael ei wneud o dan Adran 1 o'r Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol (LBRA) 2006.

Cydymffurfio ag adran 3(2) o Ddeddf 2006 – Rhagamodau

4.2 Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried bod yr amodau yn adran 3(2) (lle'n berthnasol) yn cael eu bodloni am y rhesymau canlynol.

Datrysiadau sydd ddim yn ddeddfwriaethol

4.3 Nid oes opsiwn sydd ddim yn ddeddfwriaethol er mwyn cyflawni'r nod o ehangu'r pwll o weithwyr meddygol proffesiynol sy'n gallu cwblhau holiaduron meddygol y DVLA gan fod y Ddeddf Traffig Ffyrdd yn gofyn i hyn gael ei wneud gan feddygon yn unig.

4.4 Os nad yw'r ddeddfwriaeth yn cael ei newid i ganiatáu pwll ehangach o weithwyr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig i gwblhau holiaduron, bydd angen i'r DVLA gael gwybodaeth feddygol o hyd ond meddygon awdurdodedig yn unig fydd yn darparu'r wybodaeth hon.

4.5 Wrth i faich gwaith meddygol y DVLA gynyddu o flwyddyn i flwyddyn, byddai effaith 'gwneud dim byd' yn cael ei deimlo'n fwyaf dwys gan feddygon gan y bydd gofyn iddynt gwblhau nifer hyd yn oed mwy o holiaduron yn gofyn am wybodaeth bob blwyddyn. Ni fyddai meddygfeydd teulu a thimau ysbyty yn cael yr hyblygrwydd i weinyddu eu hadnoddau'n effeithiol i reoli'r blaenoriaethau sy'n gwrthdaro mewn ymarfer clinigol. Byddai buddion arbed amser anuniongyrchol cael gweithwyr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig eraill yn cael eu colli.

4.6 Mae gyrwyr a busnesau hefyd yn debygol o gael eu heffeithio gan oediadau posibl i'r penderfyniadau ar a fydd y gyrrwr yn gallu cael eu trwyddedu i yrru.

Cymesuroldeb

4.7 Mae effaith ac ardrawiad y ddarpariaeth yn gymesur â rhwymedigaeth statudol y DVLA i sicrhau bod pob gyrrwr yn bodloni'r isafswm safonau penodedig o addasrwydd i yrru. Amcan y ddarpariaeth yw gwella'r broses bresennol a dileu'r baich presennol ar feddygon mewn darparu gwybodaeth feddygol hanfodol i'r DVLA. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol felly'n ystyried y Gorchymyn drafft yn gymesur ag amcan y polisi.

Cydbwysedd Teg

4.8 Mae'r ddarpariaeth yn cynnig ymagwedd fwy effeithlon, llyfn ac wedi'i thargedu at y broses/polisi presennol ac nid yw'n cael effaith ar fuddiannau unrhyw unigolyn na'r budd cyhoeddus mewn penderfynu ar addasrwydd i yrru i unrhyw raddau helaethach nac sy'n bodoli'n barod yn y broses trwyddedu meddygol.

Diogelu Angenrheidiol

4.9 Nid yw'r ddarpariaeth yn dileu unrhyw ddiogelu angenrheidiol. Mae'n rhaid i'r holl yrwyr ac ymgeiswyr am drwyddedau gyrru ar hyn o bryd fodloni'r isafswm safonau iechyd i yrru ac nad yw rhwymedigaeth gyfreithiol yn cael ei effeithio gan y ddarpariaeth.

Hawliau a Rhyddid

4.10 Nid yw'r ddarpariaeth yn atal unrhyw unigolyn rhag parhau i ymarfer unrhyw hawl neu ryddid y gallai'r unigolyn hwnnw ddisgwyl parhau i'w ymarfer; ni fydd y ddarpariaeth yn newid y rhwymedigaeth bresennol bod rhaid i'r DVLA, yn gweithredu ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol, wrthod trwydded os nad yw deiliad y drwydded neu ymgeiswyr am drwyddedau yn ateb yr isafswm safonau iechyd ar gyfer gyrru.

Arwyddocâd Cyfansoddiadol

4.11 Nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried y ddarpariaeth i fod o arwyddocâd cyfansoddiadol gan nad yw'n newid y status quo deddfwriaethol presennol, o ystyried yr arferion presennol o feddygon yn gorfod casglu gwybodaeth gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill. Mae'r ddarpariaeth yn symleiddio arferion presennol, ac yn ceisio sicrhau bod gwybodaeth hanfodol am allu rhywun i barhau i yrru yn cael ei darparu gan y person sy'n gallu ei darparu orau.

Dyletswyddau Gweinidogaethol eraill o dan y Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006

Dileu beichiau

4.12 Mae'r LRO yn cynnig lleihau'r beichiau cyffredinol a osodir gan Adran 94 o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988 drwy leihau anghyfleustra gweinyddol i feddygon, a dileu rhwystr i effeithlonrwydd fel a ganlyn:

- caniatáu i feddygon, yr hyblygrwydd i benderfynu bod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig arall mewn sefyllfa well i ymdrin â chyflwr meddygol gyrrwr a yn rhyddhau eu hamser i ganolbwyntio ar ofal hanfodol i gleifion
- dileu'r gofyniad mai dim ond meddyg sy'n darparu gwybodaeth. Mae ymarfer meddygol modern weithiau'n golygu y bydd gyrwyr yn cael eu gweld yn amlach gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill, a allai fod â gwybodaeth well a mwy diweddar ar gael iddynt yn haws. Er bod meddygon yn gallu ymateb i geisiadau am wybodaeth yn awr ar sail gwybodaeth a dderbynnir gan y gweithwyr gofal iechyd proffesiynol hynny, mae'r mesur yn dileu'r baich o ofyn am wybodaeth gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall a dehongli'r wybodaeth honno eu hunain lle maent yn ymwybodol nad hwy yw'r ymatebydd mwyaf priodol. Gall y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol benderfynu naill ai casglu gwybodaeth o'u cofnodion neu wrth amrywiaeth o weithwyr gofal iechyd proffesiynol, ymateb gyda'r wybodaeth sydd ar gael iddynt, neu ofyn i weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall ddarparu'r wybodaeth yn uniongyrchol
- dileu'r gofyniad bod yn rhaid i'r gweithiwr meddygol proffesiynol y cyfeirir ato yn yr awdurdodiad fod wedi rhoi cyngor meddygol neu sylw i'r ymgeisydd ar ryw adeg. Mae hyn yn ysgafnhau baich mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, mae'n cael gwared ar faich ar y gyrrwr i ystyried a yw'r gweithiwr proffesiynol hwnnw wedi rhoi cyngor a sylw meddygol mewn gwirionedd. Mae'n caniatáu i ymarferydd gofal iechyd nad yw mewn gwirionedd wedi rhoi cyngor a sylw meddygol i'r gyrrwr (efallai am fod ei weithiwr gofal iechyd proffesiynol blaenorol wedi gadael y feddygfa neu wedi ymddeol) ddarparu gwybodaeth o'r wybodaeth sydd ar gael iddynt, megis nodiadau meddygol y gyrrwr. Yn ail, mae'n gwella eglurder y ddarpariaeth, drwy ddileu'r goblygiad bod yn rhaid i'r gyrrwr enwebu pob gweithiwr meddygol proffesiynol sydd wedi rhoi cyngor meddygol neu sylw iddynt am gyflyrau penodol (gweler paragraff 2.14 uchod). Bydd hyn yn galluogi DVLA a gyrwyr i ganolbwyntio ar y person mwyaf priodol i ddarparu gwybodaeth am gyflwr presennol y gyrrwr

- cynyddu effeithlonrwydd drwy ganiatáu i'r gweithiwr gofal iechyd cofrestredig proffesiynol mwyaf priodol ddarparu gwybodaeth yn uniongyrchol i DVLA, gan alluogi DVLA i wneud penderfyniad trwyddedu yn fwy prydlon. Rhagwelir y bydd y gallu i weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill ddarparu gwybodaeth yn cyflymu'r broses mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, bydd gyrwyr yn gallu enwi, yn ogystal â'u meddyg, y gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill sy'n gallu darparu gwybodaeth. Drwy wneud hynny, bydd DVLA yn gallu cysylltu'n uniongyrchol â'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol hynny. Yn ogystal, ni fydd yn rhaid i feddygon aros mwyach am ymatebion gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol, o bosibl coladu'r ymatebion hynny a'u dehongli ac ymateb i'r DVLA eu hunain; os ydynt o'r farn bod gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall wybodaeth a'u bod yn gallu rhoi atebion iddynt hwy eu hunain, gallant gyfeirio'r cais am wybodaeth at y person hwnnw
- symud y baich oddi wrth feddygon heb greu unrhyw faich ychwanegol o fewn y GIG, gan fod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn cynorthwyo meddygon eisoes wrth gwblhau holiaduron meddygol DVLA, ond nid ydynt wedi'u hawdurdodi i ddarparu gwybodaeth yn uniongyrchol

4.13 Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ystyried a fyddai'r darpariaethau mewn gwirionedd yn arwain at oedi pellach, gyda cheisiadau am wybodaeth yn cael eu trosglwyddo o amgylch gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Fodd bynnag, nid yw o'r farn bod risg yn debygol o godi. Ystyrir ei bod yn fwy tebygol y bydd y newid yn arwain at ddull symlach lle gall y person cywir ddarparu gwybodaeth sydd ganddynt yn uniongyrchol i DVLA yn gyflymach. O ystyried y gefnogaeth i'r mesur a ddangosir yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn mai newid bach yw'r newid a fydd yn gwella'r system gyffredinol o benderfynu a yw gyrwyr yn gallu parhau i yrru. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol, wrth gwrs, yn parhau i adolygu'r newid.

Gweithdrefn Seneddol

4.14 Mae'r Gorchymyn drafft yn gwneud newidiadau cymharol fach a syml i'r fframwaith rheoleiddiol presennol ac mae'n fesur i ddileu baich diangen. Nid yw'r newid yn gyfansoddiadol arwyddocaol ac nid yw'n ddadleuol. Bydd y mesur yn dileu unrhyw faich diangen ar Feddygfeydd Teulu a thimau ysbyty, a, lle maen nhw wedi cael eu hawdurdodi, bydd gan feddygon y dewis a ydyn nhw neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall mewn lle gwell i ddarparu gwybodaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol.

4.15 Er mwyn gwneud cynnydd cyflym mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, y Gwir Anrhydeddus Grant Shapps AS, yn argymell bod y weithdrefn datrys cadarnhaol yn cael ei defnyddio (fel yr amlinellir yn Adran 16 o'r Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006).

4.16 Bydd dod â'r Gorchymyn i rym mor gynnar â phosibl yn mynd i'r afael â phwysau ar feddygon, y GIG a'r diwydiant cludo nwyddau yn yr amgylchiadau eithriadol a achoswyd gan y pandemig. Mae'r pandemig a'r rhaglen frechu wedi golygu bod gwasanaethau sydd ddim yn hanfodol wedi cael eu lleihau, ac mae hyn wedi cael effaith ar y rheini â chyflwr meddygol lle mae angen rhagor o wybodaeth gan weithiwr meddygol proffesiynol i adnewyddu eu hawl i yrru. Mae'r Gorchymyn hefyd yn fesur 31 o'r pecyn o fesurau a gyhoeddwyd gan y llywodraeth yn 2021 i fynd i'r afael â'r prinder cludwyr nwyddau ac i gadw'r gadwyn gyflenwi i symud.

4.17 Bydd caniatáu gweithwyr meddygol proffesiynol eraill i ddarparu gwybodaeth i'r DVLA yn ysgafnhau'r pwysau ar y GIG a meddygon. Yn ei thro, bydd y DVLA yn gallu ymdrin â cheisiadau am drwyddedau gyrru yn gyflymach.

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

4.18 Mae'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Trafnidiaeth, y Gwir Anrhydeddus Grant Shapps, wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch Hawliau Dynol:

"Yn fy marn i mae darpariaethau'r Gorchymyn drafft yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar hawliau dynol."

Cyrhaeddiad Tiriogaethol a Chymhwysiad Tiriogaethol

4.19 Mae'r offeryn cyfan hwn yn gymwys i Loegr a Chymru a'r Alban. Nid yw'n berthnasol i Ogledd Iwerddon, gan fod y Ddeddf Traffig Ffyrdd yn gymwys i Brydain Fawr yn unig.

4.20 Yn y Deyrnas Unedig, trwydded yrru yw'r ddogfen swyddogol sy'n cyfleu hawl i yrru. Mae trwyddedu gyrwyr yn cael ei weinyddu yn Lloegr, yr Alban a Chymru gan y DVLA. Mae trwyddedu gyrwyr yn fater datganoledig yng Ngogledd Iwerddon ac mae'n cael ei weinyddu gan yr Asiantaeth Gyrwyr a Cherbydau (DVA).

4.21 Mae swyddogion yng Ngogledd Iwerddon wedi cael gwybod am y cynnig hwn.

Effaith

4.22 Nid oes effaith ar fusnesau, elusennau na chyrff gwirfoddol, na'r sector cyhoeddus o ganlyniad i'r Gorchymyn drafft hwn. O ystyried bod effaith y Gorchymyn drafft yn gyfyngedig, mae Asesiad De Minimis wedi cael ei baratoi ar gyfer yr offeryn hwn. Mae Asesiad De Minimis yn cael ei gyflwyno â'r memorandwm hwn ac mae'n cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r ddogfen adroddiad ymgynghori.

Cyswllt

Keya Lianne Nicholas
Cyfarwyddiaeth Strategaeth, Polisi a Chyfathrebu, Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

E-bost – **keya.nicholas@dvla.gov.uk**